

Cynnal economi heb ddinistrio amgylchedd

Yr Athro Gareth Wyn Jones yn gosod un o'r cwestiynau pwysica' – beth mae bod yn gynaliadwy yn ei olygu?

MAE pobol wedi bod yn sôn am 'gynaliadwyedd' a 'datblygiad cynaliadwy' am rai degawdau. Da o beth yn fy marn i.

Ond mae'n amlwg fod yna gryn ddryswch o hyd. Be mae'r ymadroddion yn ei feddwl?

Mae rhai o'r diffiniadau mor amwys fel ei bod yn anodd gwybod yn union beth ydi'r ystyr a pham bod ein cyfundrefn bresennol yn 'anghynaliadwy'.

Mi fydd rhai'n sôn am ein cyfrifoldeb i drosglwyddo Byd gydag adnoddau naturiol digonol i'n plant ac i blant ein plant. Iawn! Ond gyda thechnoleg yn newid mor sydyn, sut mae darogan beth fydd y sefyllfa yn y dyfodol hyd yn oed yn lled gywir?

BETH MAE CYNALIADWYEDD YN EI OLYGU YN YMARFEROL?

A be fydd ein blaenoriaeth bersonol os byddwn ni allan o waith y funud yma, neu yn sâl, neu yn colli arian yn y newidiadau i fudd-daliadau ac yn cael trafferth bwydo'r plant?

Mae yna sôn hefyd am bwysigrwydd cyplysu economi cryf gyda chymdeithas wâr, weithgar a sicrhau amgylchedd iach, gan gydnabod ein bod ni i gyd yn dibynnu ar yr awyr, tir a môr i'n cynnal.

Ond a oes rhaid dewis a blaenoriaethu? Be allwn ni ei wneud os ydi swyddi yn diflannu dramor, lle mae gofal am yr amgylchedd yn fwy llac?

Beth felly mae cynaliadwyedd yn ei olygu yn ymarferol ac, yn arbennig, yn economaidd - i ni yn ein cartrefi, yn y siopau ac yn ein gwaith.

I lawer, gan gynnwys y rhai a gollodd eu gwaith yn y lladd-dy yn Gaerwen yr wythnos ddiwetha', y flaenoriaeth ydi swydd newydd. Prin fod lle i boeni be ddaw mewn degawdau ac am newid hinsawdd a chodi lefel y môr, pan fydd pwysau gofalon heddiw mor ddwys.

I eraill, ystyr cynaliadwyedd ydi cynnal yr amgylchedd ac mae rhai yn meddwl y bydd rhaid wynebu newid sylfaenol yn ein ffordd o fyw i fod yn gynaliadwy.

Mi fyddai hynny yn ein gorfodi i fyw yn gynnil a darbodus ac, er enghraifft, i osgoi hedfan mewn awyrennau neu fwyta cymaint o gig, gan fod y ddau beth yn gollwng cymaint o nwyon tŷ gwydr i'r amgylchedd.

Ar y llaw arall, mae rhai'n dadlau y bydd technolegau a darganfyddiadau newydd yn ateb yr holl broblemau ac y gallwn gario ymlaen fel arfer.

O gofio'r holl wahanol safbwyntiau, does dim llawer o syndod fod y rhan fwyaf o'r boblogaeth y teimlo'n ddryslud.

YNG NGHYMRU — BOD YN 'CYNALIADWY' YN DDEDDF GWLAD

O ofyn i Gymry, neu drigolion Gwlad Groeg neu China be sydd yn anghynaliadwy yn eu bywydau nhw, mae'n bosib iawn mai'r ateb fyddai diffyg swyddi, cyni ariannol neu broblemau cymdeithasol.

Dyma felly ydi'r cwestiwn mawr – be ydi'r berthynas rhwng ein problemau economaidd a chymdeithasol (a dyfodol ein hiaith), ac iechyd ein hamgylchedd?

Dw i o'r farn bod yna gysylltiad agos a bod ein cyfundrefn wedi-Thatcher yn wallus.

Mae yna arwyddocâd arbennig i ni Gymry. Bron yn unigryw, mae gofyn i Gymru ddilyn patrwm 'cynaliadwy' am fod y geiriau yn rhan o'r Ddeddf a sefydlodd y Cynulliad yn 1999.

Mae'r Llywodraeth Lafur bresennol yn bwriadu deddfu i wneud 'Datblygiad Cynaliadwy' yn ganolog i'w holl weithgareddau a gweithgareddau'r cyrff cyhoeddus dan ei hadain. Beth felly ydi ystyr 'cynaliadwyedd' ym marn y Llywodraeth.

Dw i'n credu yn ei hanfod mai problem economaidd sydd o'n blaenau - sut mae cynnal ein heconomi heb ddinistrio ein hamgylchedd a'n cymunedau, a hynny pan fo twf mewn GDP yn dibynnu mor drwm ar ynni hydrocarbon rhad a'n defnydd o adnoddau naturiol eraill, sydd heb fod yn ddi-hysbydd?